**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LW/12307/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

13 Ionawr 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd ynghylch deiseb P-06-1234 ni ddylid cyfyngu ffordd newydd Blaenau'r Cymoedd i 50 mya.

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn gwneud gwelliannau i gefnffordd yr A465 rhwng Gilwern a Brynmawr, a elwir yn Ran 2. Mae'r gwelliannau yn unol â gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2014 a ystyriodd y cynllun yn fanwl. Mae adroddiad yr Arolygydd a gynhaliodd yr ymchwiliad i'w weld ar ein gwefan yn:
[A465 Gilwern i Frynmawr: adroddiad yr arolygwyr cynllunio | LLYW.CYMRU]

Roedd cyfyngiadau coridor Rhan 2 yr A465 yn gofyn am gynllun a oedd yn cydbwyso'r angen i leihau'r effaith ar yr amgylchedd a sicrhau manteision economaidd. O ganlyniad, mae'r ffordd wedi'i chynllunio a'i hadeiladu ar y sail y byddai terfyn cyflymder o 50mya. Mae cyfyngiadau ffisegol ar godi'r terfyn cyflymder dros 50mya, a nododd yr arolygydd yn yr ymchwiliad fod y cynllun yn golygu gwyro oddi wrth safonau peirianneg arferol, a'r prif ddull o liniaru fyddai terfyn cyflymder o 50mya yn cael ei osod ar y ffordd.

Cytunodd yr ymgynghoriad ar derfyn cyflymder gorfodol o 50mya ar Ran 2 yr A465 gydag Awdurdodau Lleol, Gan Bwyll, Heddlu Gwent, Cymorth Diogelwch y Ffyrdd Cyfyngedig ac fe'i cyflwynwyd hefyd yn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau gan ymgyngoreion statudol nac aelodau o'r cyhoedd ar yr elfen benodol hon.

Cyhoeddwyd y Gorchymyn drafft ar 10 Mehefin 2021. Derbyniwyd tri deg un o wrthwynebiadau y gwneuthum eu hystyried yn llawn, ond ni welais unrhyw beth yn y llythyrau gwrthwynebu, nac yn unrhyw un o'r papurau blaenorol, a fyddai'n galluogi i'r terfyn cyflymder o fewn y cyfyngiadau a gynlluniwyd ac a adeiladwyd gael ei gynyddu'n ddiogel o'r terfyn cyflymder o 50mya.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r ffordd newydd wedi bod yn weithredol, gan ddefnyddio'r terfyn o 50mya gyda dwy lôn i bob cyfeiriad, ers 21 Tachwedd 2021.

Yn gywir,



**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd